Cymdeithas Dehongli Treftadaeth

Dehongliad Aur: Dathlu 50 mlynedd o ysbrydoli, ymgysylltu a chysylltu pobl i ysgogi dyfodol mwy cynaliadwy ym maes dehongli treftadaeth.

Briff ar gyfer: Ymgynghorydd Ymchwilio ac Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd

Rôl sydd ei hangen:	**Ymgynghorydd Ymchwilio ac Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd**
Cyllideb:	**£15,750**
Yn atebol i:	**Rheolwr Prosiect**
Amserlen:	**9 mis, gan ddechrau ym mis Ionawr 2025**

Trosolwg

Rydym yn ceisio comisiynu darn o waith i'w wneud gan arbenigwr mewn ymchwilio ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd sydd â phrofiad o weithio gyda phrosiectau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd yr ymgynghorydd ymchwilio ac ymgysylltu cynulleidfaoedd yn atebol i'r Rheolwr Prosiect.

Cymdeithas Dehongli Treftadaeth

Y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth (AHI) yw'r corff proffesiynol ym Mhrydain ac Iwerddon ar gyfer unigolion sy'n ymwneud ag ymgysylltu pobl â threftadaeth naturiol a diwylliannol. Mae dehongliad yn egluro ystyr pethau, syniadau, a threftadaeth ein cymdeithas. Mae ein 50 mlynedd o archifau a digwyddiadau yn gosod AHI fel arloeswr. Rydym yn rhan o fudiad cenedlaethol a byd-eang ehangach o sefydliadau, a sefydlwyd i warchod a dathlu treftadaeth.

Credwn fod dehongliad yn cyfoethogi ein bywydau trwy ennyn emosiynau, cyfoethogi profiadau a dyfnhau dealltwriaeth o leoedd, pobl, digwyddiadau a gwrthrychau o'r gorffennol a'r presennol.

Mae ein haelodau yn cynnwys ystod amrywiol o sefydliadau ac unigolion, elusennau cenedlaethol mawr, prifysgolion, llyfrgelloedd, grwpiau cymunedol, amgueddfeydd lleol llai ac ymgynghorwyr llawrydd. Ysgrifennir canllawiau arfer gorau ac erthyglau cyfnodolion gan ymarferwyr, arbenigwyr, ymgynghorwyr, dehonglwyr gyrfaoedd cynnar, athrawon a meddygon. Mae cyrhaeddiad anuniongyrchol ein gwaith yn helaeth.

Amlinelliad o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn dathlu 50 mlynedd diwethaf AHI ac yn adeiladu ar ein sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Ein nod trosfwaol yw y bydd AHI wedi'i drefnu'n well ac yn cael adnoddau gwell i gefnogi ystod fwy, a mwy amrywiol o gymunedau i rannu sgiliau, syniadau a deunyddiau.

Bydd treftadaeth gyfoethog ein hôl-gatalog o gyfnodolion, canllawiau arfer gorau a hanes llafar Cymrodyr yn cael eu cadw a'u rhannu ar-lein. Bydd rhaglen cyfnewid ac ailddefnyddio cyfryngau dehongli yn gweld aelodau yn rhoi deunyddiau dehongli diangen i aelodau eraill, gan alluogi economi gylchol i leihau gwastraff ac anghydraddoldebau hygyrchedd.

Erbyn diwedd y prosiect bydd ein haelodaeth yn fwy ac yn fwy cynhwysol o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd gweithio gydag ystod ehangach o Aelodau Cymunedol yn golygu caniatáu i fwy o bobl o ystod ehangach o gefndiroedd sylweddoli manteision aelodaeth, gan gynnwys cael mynediad at offer, adnoddau ac arbenigedd dehongli. Bydd tyfu ac amrywio ein haelodaeth yn ein gwneud yn fwy gwydn ac adfyfyriol fel sefydliad.

Gweithgareddau'r prosiect

Ymgynghori
Byddwn yn ymgynghori ag:

- Aelodau unigol i ddeall sut y gallant rannu eu harbenigedd gyda'u cymunedau lleol.
- Aelodau Cymunedol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol heb aelodaeth i ddeall sut y gallai AHI eu cefnogi, i ail-lunio ein Haelodaeth Gymunedol.
- Aelodau Unigol, Sefydliadol, Cymunedol a Masnachol a rhanddeiliaid i brofi'r cysyniadau cyfnewid ac ailddefnyddio.

Peilot
Bydd peilot yn canolbwyntio ar un ardal ddaearyddol i dreialu modelau newydd o ymgysylltu ag Aelodau Cymunedol ac i brofi'r cynllun cyfnewid ac ailddefnyddio. Gan ganolbwyntio ar Dde Cymru byddwn yn dechrau drwy rwydweithiau sy'n gweithio allan o Amgueddfa Sain Ffagan, Caerdydd (lleoliad ein cynhadledd 2025).

Cydgrynhoi
Mae ein gwefan bresennol yn cyflwyno rhwystrau i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol

ymgysylltu ag AHI, ac i Aelodau Unigol sy'n gweithredu yn eu cyd-destunau lleol. Bydd canlyniadau yr ymgynghori a threialu yn llywio ail-ddyluniad o wefan sy'n gwreiddio, hwyluso a chyfathrebu ein gwaith gyda gwahanol aelodau. Byddwn hefyd yn diogelu treftadaeth AHI ei hun drwy ddigideiddio pob rhifyn o'n cyfnodolyn dros yr 50 mlynedd diwethaf.

Allbynnau:

- Llunio dyfodol cynaliadwy
- Ymchwilio ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd i gyrraedd cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n ymgysylltu ag AHI (helpu i greu aelodaeth)
- Cynllun Cyfnewid ac Ailddefnyddio – helpu i sicrhau bod dehongliadau ac arddangosfeydd cysylltiedig yn cael eu darparu mewn amgueddfeydd, orielau, safleoedd treftadaeth mewn modd mor amgylcheddol gynaliadwy â phosibl.
- Creu archif
- Digido casgliad yr archif o gyfnodolion a chanllawiau arfer gorau.
- Mynediad am ddim trwy wefan sy'n haws ei defnyddio a churadu ein catalog digidol.
- Storio casgliadau archifau yn y tymor hir, wedi'u diogelu'n well ar gyfer y dyfodol.
- Prosiect hanes llafar

Ymgysylltu

- Marchnata casgliad newydd ei ddigido ar ôl ymgynghori â'r aelodaeth.
- Cynhadledd 50 mlwyddiant.
- Lleoedd bwrsariaeth i fynychwyr cynadleddau x 2 (lleoedd preswyl llawn).
- Cyhoeddiadau - byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi dau ganllaw arfer gorau newydd ar 1) cyfnewid ac ailddefnyddio cyfryngau dehongli a 2) gweithio gyda chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gasglu ein dysgu o'r prosiect.
- Gweminar hyfforddi ar ymgysylltu â'r gymuned.
- Hyfforddi staff.
- Sgyrsiau ac ymgynghoriadau ag aelodau, unigolion heb aelodaeth a grwpiau cymunedol.

Briff

Yr Ymgynghorydd Ymchwilio ac Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd sy'n gyfrifol am gynllunio, cydgysylltu a chyflawni'r holl weithgareddau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Bydd yr ymgynghorydd yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o randdeiliaid y prosiect, cydweithwyr ac arbenigwyr i sicrhau bod cwmpas, cyflawniadau a buddion yn parhau i fod yn gyraeddadwy ac yn addas i'r diben.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol

1. Ymchwil

- Gweithio gyda Rheolwr y Prosiect a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i ymchwilio, cynllunio a bwydo i mewn i werthusiad o bob elfen o ymgysylltu â chynulleidfaoedd fel rhan o'r prosiect hwn.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd prosiect rheolaidd fel rhan graidd o dîm y prosiect.
- Helpu i lunio'r cynnwys, y fethodoleg a'r hyn y gellir ei gyflawni o amgylch pob elfen o ymgysylltu â chynulleidfaoedd.
- Yn gyfrifol yn benodol am ymgynghori ag aelodau, ymgynghori ag unigolion heb aelodaeth, y cynllun cyfnewid ac ailddefnyddio, olrhain defnyddwyr yn ddigidol ar lwyfannau gwe newydd, coladu gwybodaeth i'w rhannu â chymheiriaid trwy Weminar a chanllaw arfer gorau newydd.

2. Ymgysylltu

- Nodi - grwpiau allweddol i ymgynghori â nhw yn seiliedig ar amcanion y prosiect, ymchwil gyfredol (a ddatblygwyd yn ystod cais y prosiect) ac ymchwil newydd
- Ymgynghori - gan ganolbwyntio ar gymunedau De Cymru
- Cynllunio a darparu gweminar
- Cyflwyno'r cynllun cyfnewid ac ailddefnyddio – sicrhau bod adborth y gynulleidfa yn ei lywio
- Datblygu gwefan ac Olrhain Digidol ar gyfer digideiddio, hanes llafar, defnyddioldeb a hygyrchedd.
- Cyfrannu at gynhadledd 50 mlynedd

3. Cyllideb

- Gweithredu fel deiliad y gyllideb ar gyfer gweithredu'r cynllun cyfnewid cyfryngau dehongli (£8,000) a gweminar (£1,500).

4. Adrodd

- Bwydo i adroddiadau ar gyfer diweddariadau rheolaidd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Gweithio gyda'r Ymgynghorydd Gwerthuso i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer yr Adroddiad Gwerthuso terfynol.

Methodoleg

Y Rheolwr Prosiect fydd y cyswllt o ddydd i ddydd a'r cyfrifoldeb cyffredinol am y prosiect.

Rydym yn disgwyl methodoleg effeithiol fel y bo'n briodol i'r prosiect wrth iddo esblygu a datblygu dros amser. Bydd cyfarfodydd a diweddariadau prosiect rheolaidd yn cael eu trefnu.

Nodwch y fethodoleg (gan gynnwys dulliau) rydych yn bwriadu ei defnyddio i fodloni nodau ac amcanion y gwaith neu nodwch y dull hoffech ei ddefnyddio i wneud y gwaith.

Rheoli Contractau

Bydd yr Ymgynghorydd Ymchwilio ac Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd yn cael ei reoli gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Bydd yr amserlen dalu ar gyfer y gwaith hwn yn cael ei dadansoddi'n fisol a'i lledaenu'n gyfartal ar draws y contract: £1,750 y mis am 9 mis.

Meini prawf gwobrwyo

Rydym yn disgwyl i geisiadau gyflwyno cynnig ar gyfer gwneud y gwaith a ddylai gynnwys:

- crynodeb o brofiad perthnasol
- methodoleg fanwl ar gyfer cynnal yr astudiaeth
- cyfradd codi tâl dyddiol y staff unigol dan sylw, a dadansoddiad o ffioedd, treuliau a TAW lle bo'n berthnasol
- amserlen fer, er enghraifft ar ffurf siart Gantt, ar gyfer cyflawni'r prosiect

Bydd cynigion a gyflwynir yn cael eu hasesu gan y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth yn erbyn y cwestiynau canlynol:

1. I ba raddau y mae'r cynnig yn dangos dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â'r briff hwn? (20%)
2. I ba raddau y mae'r fethodoleg a'r dulliau yn briodol i'r gofynion a nodir yn y briff hwn? (20%)
3. Faint o brofiad y mae'r cynigydd yn ei ddangos er mwyn cwblhau'r gwaith yn llwyddiannus? (20%)
4. Pa mor dda y mae'r cynigydd wedi strwythuro tîm er mwyn rheoli'r contract yn llwyddiannus a chyflawni'r gwaith gofynnol yn unol â'r gyllideb a'r amserlen ofynnol? (20%)
5. Gwerth am arian. (20%)

Dylai costau gynnwys TAW a threuliau a chynnwys dadansoddiad o bob person a fydd yn gweithio ar y prosiect, eu cyfradd dydd a sawl diwrnod y bydd pob aelod o'r tîm yn cael ei neilltuo i gwblhau'r gwaith.

Dylai costau gymryd i ystyriaeth teithio i Gaerdydd ac un noson o lety yno ar gyfer cynhadledd fawr sy'n rhan allweddol o'r prosiect hwn, ni chaiff hyn ei ariannu ar wahân. Gellir gwneud yr holl waith arall o bell.

Y broses gaffael

Yr amserlen gaffael fydd:
Dosbarthu'r briff o: 20fed Tachwedd 2024
Dyddiad cau ar gyfer dychwelyd cynigion: 5pm Dydd Llun 9fed Rhagfyr 2024
Cyfweliadau: 18fed Rhagfyr 2024
Bydd AHI yn hysbysu cynigwyr am ein penderfyniad caffael erbyn dydd Gwener 20fed Rhagfyr 2024

Bydd cynigwyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cynnig drwy e-bost.

Dylid cyflwyno cynigion i'n Gweinyddwr, Lyn Redknap admin@ahi.org.uk yn electronig cyn y dyddiad cau o 5pm ar 9fed Rhagfyr.

Rhagwelir bydd y gyllideb yn £15,750 i gynnwys yr holl dreuliau a TAW.